**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**13 Hydref 2010**

Brîff ysgrifenedig am y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru).

## 1. Beth fydd effaith y Mesur arfaethedig

Bydd y Mesur arfaethedig yn effeithio ar y naill haen a'r llall o lywodraeth leol - sef y cynghorau sir a bwrdeistref sirol (y cyfeirir atynt wedi hyn fel "prif gynghorau") a'r cynghorau cymuned a thref (y cyfeirir atynt wedi hyn fel "cynghorau cymuned"). Bydd yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru wireddu'r ymrwymiadau polisi a wnaeth mewn perthynas â llywodraeth leol yn ei datganiad polisi *Rhannu Cyfrifoldeb*, ac i fynd i'r afael hefyd â'r materion a nodwyd yn adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru "*At ein gwasanaeth?"* a oedd yn ymdrin â recriwtio a chadw cynghorwyr.

Mae'r Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael, yn Rhannau 1 a 2, â rhai o'r rhwystrau sy'n llesteirio'r broses o recriwtio a chadw cynghorwyr, fel y'u nodwyd yn adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru,. Bydd dyletswydd ar brif gynghorau i gynnal ymarferion monitro cydraddoldeb ymhlith ymgeiswyr a fydd yn sefyll etholiadau. Mae'r Mesur arfaethedig yn sefydlu swyddogaeth newydd Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn cael ei goruchwylio gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd. Mae hefyd yn cyflwyno swyddog dynodedig newydd, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, i gynnig cyngor a chefnogaeth, mewn perthynas â chyfarfodydd craffu, i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth, ac i gynghorwyr yn gyffredinol er mwyn iddynt fedru ymgymryd yn well â'u rôl gynrychioli. Y nod yw sicrhau bod rhagor o gymorth ar gael i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth. Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud hi'n orfodol i brif gynghorau gynnig cyfleoedd hyfforddi i gynghorwyr. Bydd yn rhaid hefyd i brif gynghorau wneud trefniadau a fydd yn caniatáu pleidleisio o bell, mwy o hyblygrwydd o ran amserau cyfarfodydd, ac a fydd yn galluogi cynghorwyr i fod yn absennol am resymau teuluol penodedig.

Ar lefel prif gynghorau, bydd y Mesur arfaethedig, yn Rhannau 2 i 5, yn moderneiddio'r trefniadau llywodraethu sydd ar gael i brif gynghorau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Yn Rhan 6, bydd yn atgyfnerthu swyddogaeth graffu prif gynghorau ac yn eu galluogi i fanteisio ar arbenigedd sectorau eraill ac i weithredu mewn ffordd gyfannol wrth graffu ar y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflenwi ar draws ardal.

Ar lefel cynghorau cymuned, bydd, yn rhinwedd Rhan 7, yn gwireddu ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad mewn ymateb i'r *"Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol"* ("Adroddiad Aberystwyth"). Caiff rôl bosibl cynghorau cymuned ei chryfhau, a bydd y trefniadau ar gyfer

sefydlu cyngor cymuned, diddymu cyngor cymuned, cyfethol aelodau a chynnal adolygiadau cymunedol i gyd yn cael eu gwella. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno Siarteri i reoli'r berthynas rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned (os nad yw trefniadau gwirfoddol wedi bod yn llwyddiannus mewn ardal) ac i gyflwyno cynllun achredu ar gyfer cynghorau cymuned.

Mae'r fframwaith presennol ar gyfer penderfynu ar lwfansau cynghorwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb rhwng Gweinidogion Cymru, y prif gynghorau a'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Bydd y Mesur arfaethedig, yn Rhan 8, yn caniatáu i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol fod yn gwbl gyfrifol am benderfynu ar y lwfansau y dylid eu talu i gynghorwyr, gan sicrhau felly y bydd modd ffurfio barn gydlynol, gytbwys ac annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr. Bydd yn caniatáu i awdurdodau parciau cenedlaethol, cynghorau cymuned ac awdurdodau tân ac achub i ddod o dan gylch gwaith y Panel.

Mae'r Mesur arfaethedig yn cywiro anghysondeb a nodwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a bydd Rhan 9 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol o dan y Mesur hwnnw.

2. **Pa bwerau sydd yn y Mesur arfaethedig sy'n caniatáu i Weinidogion wneud is-ddeddfwriaeth?**
3. **Pam mai pwerau galluogi sy'n cael eu defnyddio i ymdrin â'r materion hynny yn hytrach na'u bod yn cael eu trafod ar wyneb y Mesur arfaethedig?**

Mae tabl yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n rhoi crynodeb o fanylion yr is-ddeddfwriaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud, ac o'r rhesymau dros wneud yr is-ddeddfwriaeth honno. Dylid darllen y tabl ar y cyd â'r wybodaeth isod. Eir ati hefyd yn yr wybodaeth honno i ddisgrifio'r pŵer yn adran 56, a hynny am ei fod wedi'i hepgor o'r Memorandwm Esboniadol drwy amryfusedd.

Dyma'r pwerau galluogi yn y Mesur arfaethedig sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth:

Adran 1 – dyletswydd i gynnal arolwg
Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi'r cwestiynau a ofynnir gan brif gyngor wrth iddo gynnal arolwg ymhlith ymgeiswyr mewn etholiadau cynghorau lleol. Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn nodi'r manylion gweinyddol a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol yng ngoleuni profiad.

Adran 2 – dyletswydd i grynhoi a chyhoeddi gwybodaeth
Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi ar ba ffurf y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth a gesglir o dan adran 1.

Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn nodi'r manylion gweinyddol a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen.

Adran 9 (1) (i) – rhestr o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd
Caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd rhagnodedig (a nodir yn adran 9(1) (a)-(h)) a neilltuir ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau rhagnodedig yng ngoleuni profiad.

Adran 10 – rheoli staff drwy reolau sefydlog
Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau ynghylch rheoli staff awdurdodau lleol a ddarperir ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o dan adran 8 (b), a chânt ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgorffori'r darpariaethau hynny yn ei reolau sefydlog.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn ychwanegu darpariaeth ragnodedig ac addasiadau, ac oherwydd y byddant yn gallu gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau gwahanol o achos.

Adrannau 24 i 30 – absenoldeb teuluol, sy'n cynnwys absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu, absenoldeb mabwysiadu newydd ac absenoldeb rhiant.
Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn nodi manylion y mathau gwahanol o absenoldeb teuluol, gan gynnwys cyfnod a natur yr absenoldebau hyn a'r gweithdrefnau gweinyddol i'w dilyn gan brif gynghorau.
Bernir ei bod yn briodol ymgorffori'r manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu'r trefniadau hyn mewn rheoliadau a fydd yn adlewyrchu bwriad y Mesur ac a fydd yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen.

Adran 34 – methu â rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen
Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1. Os yw'n ymddangos y bydd awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio ag adran 34, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn a wneir o dan baragraff 13 o Atodlen 1, ddarparu bod yr awdurdod yn rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a'i fod yn dechrau gweithredu "trefniadau gweithrediaeth diofyn", sef trefniadau gweithrediaeth sydd ar ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru. Nid oes unrhyw reswm ar hyn o bryd dros gredu na fydd awdurdodau'n gwneud y newidiadau angenrheidiol, ond serch hynny, mae'n ddoeth cynnwys pŵer diofyn. Os bydd angen defnyddio'r pŵer, bydd angen darpariaeth fanwl ac felly mae'n briodol gwneud y ddarpariaeth angenrheidiol drwy orchymyn yn hytrach nag ar wyneb y Mesur ei hun.

Adran 55 – arfer swyddogaethau gan gynghorwyr
Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod lleol wneud trefniadau i aelodau unigol arfer swyddogaethau'r weithrediaeth neu un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â'r adran etholiadol y mae'r aelod wedi ei ethol drosti, neu mewn perthynas â'r ffaith bod yr aelod yn aelod swyddogol o gorff ac eithrio'r awdurdod lleol.
Bydd y pŵer i wneud gorchymyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i eithrio unrhyw swyddogaethau neu i gyfyngu ar y graddau y caiff swyddogaeth ei harfer gan aelod o awdurdod lleol nad yw'n aelod gweithrediaeth.

Adran 56 – darpariaeth ganlyniadol
Mae'r adran yn diwygio adran 100EA o'r Ddeddf Llywodraeth Leol er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn darparu ar gyfer y cofnodion ysgrifenedig sydd i'w gwneud gan aelodau unigol am benderfyniadau y maent yn eu gwneud neu am gamau y maent yn eu cymryd o dan adran 55.
Bernir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol oherwydd mai mewn is-deddfwriaeth y cynhwysir manylion y trefniadau a wneir o dan y Mesur, a hynny er mwyn bod yn gyson ag is-ddeddfwriaeth arall sy'n ymdrin â materion tebyg.

Adran 57 – cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu
Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau y mae dau neu fwy o brif gynghorau yn penodi cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu oddi tanynt ac ynghylch sut y mae'r pwyllgor hwnnw yn arfer ei swyddogaethau.
Bernir bod pŵer i wneud rheoliadau yn briodol oherwydd mai mewn is-deddfwriaeth y cynhwysir y manylion ar gyfer cynllun a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ei hun.

Adran 60 – personau dynodedig
Caiff Gweinidogion Cymru ddynodi personau neu sefydliadau (ac eithrio awdurdodau lleol) y caiff pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol graffu ar eu cyfrifoldebau neu eu swyddogaethau. Dim ond os ydynt yn darparu gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau i'r cyhoedd wrth arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus neu os ydynt yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol ag arian cyhoeddus y ceir dynodi personau neu sefydliadau yn y fath fodd.
Bernir bod pŵer i wneud gorchymyn yn briodol oherwydd mai mewn is-ddeddfwriaeth y cynhwysir y manylion gweinyddol y bydd eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur ac oherwydd y bydd is-ddeddfwriaeth yn golygu y bydd modd adolygu'r rhestr o bersonau dynodedig.

Adran 62 – cyfeirio materion at y pwyllgor trosolwg a chraffu – materion eithriedig
Mae'r adran hon yn galluogi cynghorydd i gyfeirio mater at bwyllgor trosolwg a chraffu ac mae'n rhaid wedyn i'r pwyllgor ystyried y mater ac ymateb iddo. Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth i eithrio

materion rhag cael eu cyfeirio at bwyllgorau trosolwg a chraffu gan gynghorwyr.
Nid oes modd, ar hyn o bryd, nodi pob achos lle y gall fod yn briodol i Weinidogion Cymru arfer y pŵer i bennu pa faterion a fydd yn rhai eithriedig, ac felly, mae gorchymyn yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol.

Adran 74 – darpariaeth atodol a dehongli
Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y broses benodi sydd i'w defnyddio gan brif gynghorau wrth ddyrannu cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â chynllun penodi sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac y gall fod angen ei adolygu o dro i dro.

Adran 80 – blaen-gynlluniau
Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth am yr wybodaeth sydd i'w darparu i'r cyhoedd am flaen-gynlluniau pwyllgorau trosolwg a chraffu.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion gweinyddol y gall fod angen eu hadolygu'n rheolaidd.

Adran 97 – hysbysiad sydd i'w roi gan y swyddog canlyniadau ar ôl cymryd pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol
Mae'r adran hon yn cyflwyno darpariaeth newydd i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n ymdrin â'r weithdrefn y mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ei dilyn ar ôl i bleidlais gael ei chynnal am gwestiwn sy'n deillio o gyfarfod cymunedol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y math o gwestiwn na fyddai'n rhaid dilyn y weithdrefn hysbysu ar ei gyfer.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y cynnwys yn ymhelaethu ar fanylion y mathau o gwestiynau (a fyddai'n destun pleidlais) a allai ddirymu'r ddarpariaeth ynghylch hysbysiad a nodir yn adran 97.

Adran 116 – pŵer i newid trothwy pleidleisio
Mae'r adran hon yn cyflwyno darpariaeth newydd i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y trothwy pleidleisio sy'n gymwys yn achos y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â sefydlu a diddymu cynghorau cymuned.
Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd y bydd yn fodd i ddiwygio'r trothwyon, os bydd angen gwneud hynny yng ngoleuni profiad.

Adran 119 – gofyniad am hysbysiad cyhoeddus pan fo seddau gwag aelodau cynghorau cymuned i'w llenwi drwy gyfethol
Mae'r adran hon yn cyflwyno darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned hysbysebu drwy gyfrwng hysbysiad cyhoeddus pan fo'n fwriad ganddynt lenwi swydd wag drwy gyfethol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y gofynion y mae'n rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus gydymffurfio â hwy.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn golygu y bydd modd ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at y gofynion hysbysu os gwelir bod angen gwneud hynny.

Adran 122 – gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolydd ieuenctid
Mae'r adran hon a'r un flaenorol (a121) yn cyflwyno darpariaeth sy'n galluogi cyngor cymuned i benodi cynrychiolwyr ieuenctid ar ôl iddo roi hysbysiad cyhoeddus am ei fwriad i wneud hynny. Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiad cyhoeddus.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn golygu y bydd modd ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at y gofynion hysbysu os gwelir bod angen gwneud hynny.

Adran 124 – effaith penodiad yn gynrychiolydd ieuenctid cymunedol
Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu bod cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol yn cael eu trin yn aelodau o gynghorau at ddibenion rhagnodedig penodol.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn pennu at ba ddiben/ion y mae cynrychiolydd ieuenctid i'w drin fel aelod o'r cyngor. Gallai'r dibenion hynny fod yn agored i gael eu hadolygu a'u newid dros amser.

Adran 130 – addasiadau i ddeddfiadau sy'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant
Caiff Gweinidogion Cymru wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad os ydynt o'r farn bod y deddfiad yn atal neu'n rhwystro'r cynghorau cymuned rhag arfer eu pwerau llesiant (a roddir o dan adran 129).
Mae pŵer i wneud gorchymyn yn addas gan y bydd y ddarpariaeth yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes neu o ddeddfwriaeth newydd, yn rhinwedd diwygio neu ddiddymu deddfiadau eraill.

Adran 133 – y pŵer i osod cytundeb siarter enghreifftiol
Caiff Gweinidogion Cymru nodi cynnwys cytundeb siarter enghreifftiol i'w fabwysiadu gan brif gyngor a chyngor cymuned.
Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd ei fod yn pennu manylion yr hyn sydd i'w gynnwys yn y cytundeb siarter enghreifftiol (a fydd, o bosibl, yn cael ei adolygu a'i addasu dros gyfnod o amser), ac y gall y bydd cyfarwyddyd yn cael ei roi wedi hynny mewn perthynas â'i fabwysiadu.

Adran 137 – cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd
Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynllun achredu ansawdd ar gyfer cynghorau cymuned sy'n ymdrin â'r meini prawf y mae'n ofynnol eu bodloni; y gofynion sydd i'w bodloni er mwyn gwneud cais dilys i gael eu hachredu; y ffioedd sy'n daladwy; y sail dros dynnu achrediad yn ôl a'r trefniadau ar gyfer adolygu achrediad.
Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y darpariaethau'n nodi manylion y cynllun achredu, ee pennu meini prawf a allai fod yn agored i'w newid.

Adran 143 – achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: canlyniadau
Caiff Gweinidogion Cymru wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n gosod rhwymedigaeth ar gynghorau cymuned fel nad oes yn rhaid i gyngor cymuned y mae ganddo achrediad gydymffurfio â'r rhwymedigaeth. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad fel na chaiff cyngor cymuned sydd heb ei achredu arfer pŵer a roddwyd iddo, neu dim ond ei arfer os bodlonir amodau penodol.
Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y darpariaethau'n caniatáu addasu'r modd y gweithredir unrhyw ddeddfiad mewn cysylltiad â chynghorau cymuned penodol sy'n deillio o'r ffaith bod gan y cyfryw gynghorau achrediad ansawdd, neu fel arall.

Adran 161 – y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel
Caiff Gweinidogion Cymru wneud addasiadau i'r Rhan hon o'r Mesur (Rhan 8 ac Atodlen 2) er mwyn ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth am aelodaeth y Panel, deiliadaeth ei aelodau, neu ei weithdrefnau.
Mae'r cynllun ar gyfer penodi'r Panel i'w weld yn Atodlen 2 i'r Mesur a bernir mai drwy orchymyn yr ymdrinnir orau ag unrhyw newidiadau a fyddai'n deillio yn y dyfodol o adolygiadau a fyddai'n cael eu cynnal o'r darpariaethau hynny o dro i dro.

Adran 170 – y pŵer i wneud darpariaeth atodol
Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol ac arbed mewn cysylltiad â'r Mesur hwn neu er mwyn rhoi effaith lawn i'r Mesur.
Bernir ei bod yn briodol cynnwys mewn gorchymyn y pŵer i wneud diwygiadau technegol i ddeddfwriaeth y gall y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol.

Adran 171 – cychwyn
Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth i gychwyn darpariaethau'r Mesur yn ddarostyngedig i is-adrannau 1 a 2.
Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r dyddiad dod i rym sydd i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

**4. Ar ba sail y dewiswyd pwerau penderfyniad cadarnhaol neu bwerau penderfyniad negyddol ym mhob achos?**

Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn Atodiad A yn nodi'r darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'n dynodi dibenion y pwerau, y gweithdrefnau Cynulliad sy'n gymwys i'w harfer, a'r rheswm pam y maent ar y ffurf y maent. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig wedi'i atodi i'r ddogfen hon at ddibenion cyfeirio.

Dyma'r egwyddorion cyffredinol a ddilynwyd wrth benderfynu ai gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol neu weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r un fwyaf priodol i'w defnyddio:

a) a yw'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar fanylion gweinyddol neu weithredol cynnig polisi sydd wedi'i nodi ar wyneb y Mesur arfaethedig. Yn achosion o'r fath, dewiswyd y weithdrefn penderfyniad negyddol.

b) a allai arfer y pŵer olygu y byddai gofyn newid dyletswyddau, swyddogaethau neu gyfrifoldebau sefydliad, neu a yw'n debygol y bydd ddiddordeb sylweddol mewn arfer y pŵer. Yn achosion o'r fath, dewiswyd y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Y nod oedd ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau deddfwriaethol, polisi neu weithredol sy'n newid, a rhoi cyfle i aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol drafod a chymeradwyo newidiadau sylweddol neu agweddau a fyddai'n esgor ar drafodaeth.

5. **Sut y bydd y pwerau sydd yn y Mesur arfaethedig yn effeithio ar y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn ar hyn o bryd?**

| | **Y Pwerau Presennol sydd gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn ar hyn o bryd** | **Y Pwerau sydd yn y Mesur arfaethedig** | **Effaith ar y Pwerau Presennol** |
|---|---|---|---|
| **Adran 1 (Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal arolwg)** | Dim | Mae hwn yn bŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau | |
| **Adran 2 (Cwblhau arolwg a chyhoeddi gwybodaeth)** | Dim | Mae hwn yn bŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau | |
| **Adran 9(1) (Pennaeth gwasanaethau democrataidd)** | Dim | Mae hwn yn bŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran 10 (Dyletswydd i fabwysiadu rheolau sefydlog ynghylch rheoli staff)** | Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar hyn o bryd, o dan Adran 8(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori darpariaethau ynghylch rheoli staff yn eu rheolau sefydlog | Bydd yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch y staff a ddarperir ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o dan adran 8(1)(b) o’r Mesur arfaethedig. | Mae’n ychwanegu at bwerau presennol Gweinidogion Cymru, ac yn eu hegluro, ac yn creu pŵer ehangach na’r un a ddarperir ar ei gyfer yn adran 8 o Ddeddf 1989, sydd wedi’i gyfyngu i benodi a diswyddo swyddogion cynghorau, a chamau disgyblu yn eu herbyn. |
| **Adrannau 24-30 (Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol)** | Dim | Mae hwn yn bŵer newydd sy’n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi’r amodau i’w bodloni er mwyn cael yr hawl i’r mathau gwahanol o absenoldeb teuluol | |
| **Adran 34 (Awdurdodau i roi trefniadau gweithrediaeth yn lle trefniadau amgen)** | Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar hyn o bryd, o dan adrannau 31-33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghylch gweithredu trefniadau amgen.<br>Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar hyn o bryd, o dan adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol | Mae Rhan 3 o’r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi’r gorau i weithredu trefniadau amgen. Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth newydd ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd am newid o un ffurf ar drefniant gweithrediaeth i un arall ac mae | Mae’r Mesur arfaethedig yn dileu’r opsiwn trefniadau amgen ac yn symleiddio’r trefniadau ar gyfer awdurdod lleol sydd am newid i ffurf arall ar drefniant gweithrediaeth.<br>Mae’r Mesur arfaethedig yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adrannau 30-33 o Ddeddf Llywodraeth Leol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2000, ynghylch gweithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol. | hefyd yn darparu ar gyfer refferenda.<br><br>Mae adran 34 yn cyflwyno Atodlen 1, ac mae paragraff 13 o'r Atodlen honno yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i ddarparu bod awdurdod lleol yn rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen ac yn dechrau gweithredu ffurf benodedig ar drefniadau gweithrediaeth. Wrth gydymffurfio ag adran 34 ac Atodlen 1, mae'n rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru. | 2000.<br><br>Bydd refferenda yn adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn cynnwys refferenda a gynhelir o dan y Mesur arfaethedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adrannau 55 a 56 (Arfer swyddogaethau gan gynghorwyr a darpariaeth ganlyniadol)** | Ar hyn o bryd, caiff Gweinidogion Cymru, o dan adrannau 18, 19 ac 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, wneud rheoliadau ynghylch sut y ceir cyflawni swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i swyddogaethau awdurdod gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal, gan awdurdod lleol arall neu ar y cyd ag awdurdod arall. | Bydd adran 55 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddirprwyo'r awdurdod i arfer un neu ragor o swyddogaethau'r weithrediaeth i aelodau unigol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu galluogi i wneud gorchymyn i eithrio unrhyw swyddogaethau rhag cael eu heithrio neu i gyfyngu ar y graddau y caiff swyddogaeth ei harfer. Bydd adran 56 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwneud cofnodion ysgrifenedig gan aelodau unigol o awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â phenderfyniadau a gymerir ganddynt o dan adran 55. | Maent yn ychwanegu at bwerau presennol Gweinidogion Cymru. Bydd yr hyblygrwydd sy'n bodoli eisoes ynghylch sut yr arferir swyddogaethau yn cael ei estyn, a bydd awdurdodau lleol yn cael dewis dirprwyo swyddogaethau i aelodau unigol. |
| **Adrannau 57, 60 a 62 (Y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu, personau dynodedig a chyfeirio** | Ar hyn o bryd, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer pwyllgorau trosolwg a chraffu o dan adran 21(16) o Ddeddf | Mae adran 57 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y trefniadau y mae dau neu fwy o brif gynghorau yn | Maent yn ychwanegu at bwerau presennol Gweinidogion Cymru drwy eu galluogi i roi sail statudol i'r modd y mae pwyllgor craffu'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **materion i bwyllgorau trosolwg a chraffu)** | Llywodraeth Leol 2000. | penodi cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu oddi tanynt ac ynghylch sut y mae'r pwyllgor hwnnw'n gweithredu. Mae adran 60 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi, drwy orchymyn, bersonau neu sefydliadau y caiff pwyllgor trosolwg a chraffu graffu ar eu swyddogaethau. Mae adran 62 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer eithrio materion rhag cael eu cyfeirio i bwyllgor trosolwg a chraffu gan unigolyn. | gweithredu yn hytrach nag argymell canllawiau ar arferion gorau fel ar hyn o bryd. |
| **Adran 74 (1) (Darpariaeth ynghylch penodi personau i gadeirio pwyllgorau trosolwg a chraffu)** | Dim | Mae hwn yn bŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch penodi personau i gadeirio pwyllgorau trosolwg a chraffu | |
| **Adran 80 (Blaen-gynlluniau a gwybodaeth arall ynghylch pwyllgorau trosolwg a chraffu)** | Ar hyn o bryd, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer pwyllgorau trosolwg a chraffu o dan adran 21(16) o Ddeddf Llywodraeth Leol | Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu bod gwybodaeth am flaen-gynlluniau i fod ar gael i'r cyhoedd. | Mae'n ychwanegu at bwerau presennol Gweinidogion Cymru drwy eu galluogi i roi sail statudol i'r arferion gorau sy'n cael eu hargymell yn y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2000 (adran 21(16) (b) a fewnosodwyd yn rhinwedd adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 | | canllawiau ar hyn o bryd. |
| **Adran 97 (Hysbysiad sydd i'w roi ar ôl cymryd pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol)** | Ar hyn o bryd, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynnal pleidlais ar ôl cynnull cyfarfod cymunedol o dan Ran V o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi arfer y pŵer hwn. | Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch y math o gwestiwn a allai olygu na fyddai angen dilyn y weithdrefn y mae'n rhaid i swyddogion canlyniadau eu dilyn ar ôl i bleidlais gael ei chynnal. Mae'r Mesur arfaethedig yn cyflwyno, yn adran 97, y weithdrefn newydd y mae'n rhaid ei dilyn. | Mae'n ychwanegu at bwerau Gweinidogion Cymru i reoleiddio'r modd y cynhelir pleidleisiau ac i sicrhau gweithdrefn fwy ymatebol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. |
| **Adran 116 (newid trothwy pleidleisio mewn cysylltiad â threfniadaeth cynghorau cymuned)** | Mae swyddogaethau gweithrediaeth mewn perthynas â'r darpariaethau fel y maent yn cael eu diwygio yn Rhan II o Ddeddf 1972 wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru. | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn er mwyn newid trothwyon pleidleisio. | |
| **Adran 119 (Gofyniad am hysbysiad cyhoeddus pan** | Mae swyddogaethau gweithrediaeth mewn perthynas | Pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau | Yn diwygio ac yn ehangu er mwyn adlewrychu bwriad a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **fo seddau gwag aelodau cynghorau cymuned i'w llenwi drwy gyfethol)** | â'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysu yn adrannau 231 a 232 o Ddeddf 1972 wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru. | ynghylch yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad. | darpariaethau'r Mesur |
| **Adran 122 (Gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolydd ieuenctid)** | Mae swyddogaethau gweithrediaeth mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysu yn adrannau 231 a 232 o Ddeddf 1972 wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru. | Pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad | Yn diwygio ac yn ehangu er mwyn adlewrychu bwriad a darpariaethau'r Mesur |
| **Adran 124 (Effaith penodiad yn gynrychiolydd ieuenctid cymunedol)** | Dim | Pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi at ba ddibenion y mae'r cyfryw gynrychiolydd i'w drin yn aelod o'r pwyllgor. | |
| **Adran 130 (Addasiadau i ddeddfiadau sy'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant)** | Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bŵer llesiant i awdurdodau lleol (a ddiffiniwyd fel cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol). Ar hyn o bryd, caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 3(3) o'r Ddeddf honno, wneud darpariaeth drwy orchymyn i atal | Mae adran 129 yn rhoi'r pŵer llesiant i gynghorau cymuned drwy fewnosod cynghorau cymuned i'r diffiniad o awdurdod lleol yn adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddileu rhwystrau sy'n | Yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r pŵer a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | awdurdodau lleol rhag gwneud unrhyw beth, o dan y pŵer llesiant, a nodir yn y gorchymyn. O dan adran 3(6), caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch arfer y pŵer llesiant. | atal cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer llesiant drwy addasu unrhyw ddeddfiad sy'n cael yr effaith honno. | |
| **Adran 133 (Y pŵer i osod cytundeb siarter enghreifftiol)** | Dim | Pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn ynghylch cytundebau siarter enghreifftiol. | |
| **Adran 137 (Cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol)** | Dim | Pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynllun ar gyfer achredu ansawdd. | |
| **Adran 143 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol mewn cysylltiad ag achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol)** | Dim | Pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn gwneud addasiadau i ddeddfwriaeth ynghylch arfer pwerau gan gyngor cymuned nad yw wedi'i achredu. | |
| **Adran 161 (Y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth** | Mae adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n | Mae rhan 8 o'r Mesur arfaethedig yn nodi swyddogaeth a chylch gwaith y Panel ar wyneb y Mesur. Mae | Effaith y Mesur arfaethedig yw dirymu Rheoliadau 2007. Mae'r Mesur yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ariannol)** | gallu diffinio enw'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, y trefniadau ar gyfer penodi aelodau, ar gyfer cyfarfodydd ac ar gyfer pleidleisio. Caiff y rheoliadau hefyd nodi deiliadaeth y Panel, ei swyddogaethau, y cworwm a'r adroddiad y mae'n rhaid i'r Panel ei lunio. Y rheoliadau cyfredol a wnaed o dan yr adran hon yw Rheoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007. | adran 161 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch aelodaeth y Panel, deiliadaeth yr aelodau, a gweithdrefnau'r Panel, ac mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud addasiadau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Panel. | Panel ond mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r ddarpariaeth a wneir yn y Mesur o dan Ran 8 ac Atodlen 2. |

Yn ogystal, mae Rhan 7 o'r Mesur arfaethedig yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â swyddogaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol (sy'n cael eu dal o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adran 56). Mae Rhan 7 o'r Mesur arfaethedig:

- yn golygu nad oes angen i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i Gomisiwn Cymru gynnal adolygiad o ffiniau cymunedol pan fo prif gyngor a Chomisiwn Cymru yn gwneud trefniadau i'r Comisiwn gynnal adolygiad ar ran y cyngor hwnnw ac;
- yn mewnosod adran newydd i adran 56 sy'n estyn pŵer Gweinidogion Cymru i benderfynu ar y swm sy'n daladwy i Gomisiwn Cymru gan brif gyngor am gynnal adolygiad.

## 6. Sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r pwerau hyn?

Y pwerau i wneud rheoliadau yn adran 1 - 2 – dyletswydd i gynnal arolwg
Y bwriad yw gwneud rheoliadau erbyn 1 Tachwedd 2011, a hynny er mwyn sicrhau y bydd modd monitro cydraddoldeb am y tro cyntaf yn ystod yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 9 (1) – swyddogaethau gwasanaethau democrataidd
Nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd. Pŵer "wrth gefn" ydyw a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol os yr ymddengys y bydd angen diweddaru'r rhestr o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 10 – rheolau sefydlog ynghylch rheoli staff
Y bwriad yw gwneud rheoliadau erbyn 1 Mai 2012 i ddod i rym ar ôl etholiadau'r awdurdodau lleol yn 2012. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adrannau 24 - 30 – trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol
Y bwriad yw gwneud rheoliadau erbyn 1 Mai 2012 i ddod i rym ar ôl etholiadau'r awdurdodau lleol yn 2012. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn Atodlen 1 a gyflwynir gan adran 34 - Pŵer diofyn yw hwn i wneud gorchymyn a fydd yn darparu y caiff awdurdod lleol roi'r gorau i weithredu trefniadau amgen. Nid oes unrhyw reswm ar hyn o bryd dros gredu y bydd angen defnyddio'r pŵer hwn - credir y bydd yr awdurdodau lleol hynny'n sy'n gweithredu trefniadau amgen (dim ond dau sy'n gwneud hynny ar 30 Medi 2010 - yn cymryd camau i fabwysiadu un o'r ddau fodel gweithrediaeth arall sydd ar gael iddynt ac yn cydymffurfio â'r Mesur arfaethedig – serch hynny, mae'n ddoeth cynnwys pŵer diofyn.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 55 – arfer swyddogaethau gan gynghorwyr
Nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd. Pe bai prif gynghorau yn dewis gwneud trefniadau i aelodau nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth arfer un o swyddogaethau'r awdurdod lleol a phe bai angen i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn mewn perthynas â'r sefyllfa honno, caiff y pŵer ei arfer.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 56 – darpariaeth ganlyniadol sy'n dilyn ymlaen o'r ffaith bod pŵer i arfer swyddogaethau yn cael ei ddirprwyo i gynghorwyr: cofnodion
Mae'r adran hon yn diwygio adran 100EA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd, ar hyn o bryd, yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau.

Os caiff rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru, bydd y rheoliadau hynny'n fodd i sicrhau, lle y bo aelod yn cyflawni unhryw un neu rai o swyddogaethau'r awdurdod yn rhinwedd trefniadau o dan adran 55, bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o benderfyniadau a wneir neu o gamau a gymerir gan aelod mewn perthynas â'r swyddogaeth honno.
Nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 57 - y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu
Y bwriad yw gwneud rheoliadau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl i'r adran ddod i rym – sef y diwrnod ar ôl i'r Mesur arfaethedig gael ei gymeradwyo gan ei Mawrhydi yn y Cyngor. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 60 – personau dynodedig
Y bwriad yw gwneud gorchymyn sy'n cynnwys rhestr o'r personau dynodedig erbyn 1 Mai 2012 i ddod i rym ar ôl etholiadau'r awdurdodau lleol yn 2012. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori am y rhestr o bersonau dynodedig.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 62 – cyfeirio materion at y pwyllgor trosolwg a chraffu – materion eithriedig
Nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd. Os yw Gweinidogion Cymru yn barnu, yng ngoleuni profiad, bod angen eithrio materion rhag cael eu cyfeirio at bwyllgorau trosolwg a chraffu, caiff y pŵer hwn ei arfer.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 74 – darpariaeth atodol a dehongli
Nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd. Pŵer wrth gefn ydyw i'w ddefnyddio os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y darpariaethau sydd ar wyneb y Mesur yn cael eu hosgoi mewn unrhyw fodd.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 80 – blaen-gynlluniau a gwybodaeth arall
Y bwriad yw gwneud rheoliadau erbyn 1 Mai 2012 i ddod i rym ar ôl etholiadau'r awdurdodau lleol yn 2012. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud rheoliadau.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 97 – y math o gwestiwn y ceir ei eithrio o'r gofynion hysbysu sydd ar y swyddog canlyniadau
Nid oes unrhyw fwriad i wneud rheoliadau ar hyn o bryd. Caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio os gwelir, yng ngoleuni profiad yn y dyfodol, bod angen eithrio math o gwestiwn rhag y gofynion hysbysu.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 116 - pŵer i newid trothwyon pleidleisio
Nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd ac ni chaiff ei arfer ond yng ngoleuni'r profiad o weithredu'r trothwyon newydd. Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud unrhyw orchymyn i newid trothwyon pleidleisio.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 119 – gofyniad am hysbysiad cyhoeddus pan fo seddau gwag aelodau cynghorau cymuned i'w llenwi drwy gyfethol

Nid oes angen mynd ati’n syth syth i wneud rheoliadau ynghylch yr wybodaeth sydd i’w chynnwys mewn hysbysiadau cyhoeddus am gyfethol. Bernir bod y darpariaethau yn y Mesur yn ddigonol ar hyn o bryd i wireddu’r amcan polisi. Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddal wrth gefn. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 122 - gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolydd ieuenctid
Nid oes angen mynd ati’n syth syth i wneud rheoliadau ynghylch y gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolwyr ieuenctid. Bernir bod y darpariaethau yn y Mesur yn ddigonol ar hyn o bryd i wireddu’r amcan polisi. Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddal wrth gefn. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 124 – effaith penodiad yn gynrychiolydd ieuenctid cymunedol
Nid oes angen mynd ati’n syth syth i wneud rheoliadau ynghylch statws cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 130 - addasiadau i ddeddfiadau sy’n atal neu’n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant
Nid oes angen mynd ati’n syth syth i ddefnyddio’r pŵer hwn i wneud gorchymyn er mwyn dileu unrhyw rwystrau sy’n atal cynghorau cymuned rhag arfer eu pwerau llesiant. Pŵer wrth gefn yw hwn i’w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru os daw hi i’r amlwg bod deddfiad wedi cael yr effaith anfwriadol o atal cynghorau cymuned rhag arfer y pŵer hwn.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 133 – y pŵer i osod cytundeb siarter enghreifftiol
Nid oes bwriad i fynd ati yn syth i ddefnyddio’r pŵer hwn er mwyn pennu’r hyn y dylid ei gynnwys mewn cytundeb siarter enghreifftiol. Pŵer wrth gefn yw hwn na fydd ond yn cael ei ddefnyddio os yw Gweinidogion Cymru o’r farn bod angen gwneud hynny. Y bwriad yw bod cydweithredu rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned yn digwydd yn wirfoddol. Mae siarter enghreifftiol anstatudol wedi’i gyhoeddi at y diben hwn. Mae’r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud gorchymyn.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 137 – cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol
Nid oes bwriad i fynd ati’n syth i ddefnyddio’r pŵer hwn i wneud rheoliadau er mwyn llunio cynllun ar gyfer achredu ansawdd. Pŵer wrth gefn yw hwn na fydd ond yn cael ei ddefnyddio os yw Gweinidogion Cymru o’r farn bod angen gwneud hynny.

Y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 143 – achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: canlyniadau
Nid oes angen mynd ati’n syth i ddefnyddio’r pŵer hwn i wneud rheoliadau er mwyn gwneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad. Pŵer wrth gefn yw hwn na

fydd ond yn cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru os ydynt o'r farn ei bod yn briodol cyfyngu ar swyddogaethau cynghorau sydd heb eu hachredu, neu i ryddhau cynghorau sydd wedi'u hachredu rhag rhwymedigaethau penodol a osodwyd arnynt wrth iddynt gynnal eu busnes.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 161 - y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Nid oes angen mynd ati'n syth i ddefnyddio'r pŵer hwn i wneud gorchymyn. Pŵer wrth gefn yw hwn i'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru os bydd unrhyw resymau deddfwriaethol, polisi neu weithredol a fydd yn golygu y bydd angen diweddaru'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 170 - y pŵer i wneud darpariaeth atodol
Bydd angen gwneud gorchymyn a fydd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r rheoliadau y mae'r Mesur yn effeithio arnynt. Bwriad Gweinidogion Cymru yw bod y prif ddarpariaethau a'r diwygiadau canlyniadol yn cael eu cychwyn ar yr un pryd.

Y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 171 – pŵer cychwyn
Yn achos yr adrannau y mae gofyn eu cychwyn drwy orchymyn, bwriad Gweinidogion Cymru yw y bydd hynny'n digwydd ar yr un pryd, fel y bo'r prif ddarpariaethau a'r diwygiadau canlyniadol a'r diddymiadau (yn Atodlen 4) yn cael eu cychwyn ar yr adeg briodol. Y bwriad yw y bydd holl adrannau'r Mesur arfaethedig yn cael eu cychwyn mewn pryd i ddod i rym ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol yn 2012.

O’r Memorandwm Esboniadol i Fesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 2010 ac yn cynnwys gwybodaeth am adran 56, a gafodd ei hepgor o’r Memorandwm Esboniadol

## ATODIAD A - MEMORANDWM PWERAU DIRPRWYEDIG

Mae’r memorandwm hwn yn nodi’r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) sy’n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae’n dynodi diben y pŵer, y rheswm pam y mae ar y ffurf y mae, ac unrhyw weithdrefnau Cynulliad sy’n gymwys i arfer y pŵer.

Wrth lunio’r Mesur arfaethedig, y nod oedd rhoi arwydd clir yn y Mesur ei hun o’r prif amcanion polisi. Nid yw darpariaethau i roi pwerau dirprwyedig ond yn cael eu defnyddio pan fo gweithdrefnau neu ofynion gweinyddol yn dilyn ymlaen o’r hyn sydd ar wyneb y Mesur a phan fo eu hangen er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i’r trefniadau neu i’r gweithrediadau a ddisgrifir.

Os yw’n debygol y bydd cryn ddiddordeb ym manylion y rheoliadau neu’r gorchymyn, rydym wedi cynnig y dylid defnyddio’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol er mwyn caniatáu i aelodau’r Cynulliad drafod y materion o dan sylw a chymeradwyo arfer y pŵer dirprwyedig.

### Rhannau 1 a 2 – Atgyfnerthu Democratiaeth Leol ac Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol

Mae’r darpariaethau yn y rhan hon o’r Mesur yn ymwneud â hybu a chefnogi aelodaeth o awdurdodau lleol.

Mae adran 1 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi’r cwestiynau arolwg y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu gofyn wrth gyflawni’r ddyletswydd i gynnal arolwg ymhlith ymgeiswyr aflwyddiannus a chynghorwyr.

Mae adran 2 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru bennu ar ba ffurf y mae’n rhaid i’r awdurdodau lleol roi’r wybodaeth y maent wedi’i chrynhoi i Weinidogion Cymru.

Mae adran 9 (1) (i) yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd a ragnodir.

Mae adran 10 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgorffori darpariaeth sy’n ymwneud â rheoli staff yn ei reolau sefydlog ac i wneud addasiadau eraill i’w reolau sefydlog.

Mae adran 24 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru nodi’r manylion ar gyfer penderfynu ar gyfnod o absenoldeb teuluol ar gyfer aelod o awdurdod lleol.

Mae adran 25 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru nodi’r manylion ar gyfer penderfynu sut i gyfrifo cyfnod o absenoldeb mamolaeth.

Mae adran 26 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb newydd-anedig.

Mae adran 27 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru nodi'r manylion ar gyfer penderfynu sut i gyfrifo cyfnod o absenoldeb mabwysiadu.

Mae adran 28 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb mabwysiadu newydd.

Mae adran 29 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb rhiant.

Mae adran 30 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi'r gweithdrefnau gweinyddol i'w dilyn gan awdurdodau lleol, ynghyd â chwmpas yr absenoldeb, gan gynnwys parhâd unrhyw fanteision sy'n dod i aelodau sydd â hawl i absenoldeb o dan y rhan hon o ganlyniad i'w haelodaeth o'r awdurdod neu'r weithrediaeth.

**Cyfraniad y pwerau dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau a geir yn adrannau 1 a 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffurf y cwestiynau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu gofyn ac i bennu sut y mae'r wybodaeth a grynhoir i'w hanfon at Weinidogion Cymru. Dros amser, bydd yr wybodaeth a ddaw i law yn rhoi cipolwg i Weinidogion Cymru, i randdeiliaid eraill ac i lunwyr polisi ar nodweddion y rheini sy'n sefyll etholiadau a'r rheini sy'n cael eu hethol. Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb ond nid oes unrhyw ofyniad i gynnal ymarferion monitro cydraddoldeb. Gellir defnyddio'r broses monitro cydraddoldeb i weld beth yw'r gwahaniaethau rhwng proffil ymgeiswyr a phroffil cynghorwyr, a hynny gyda golwg ar ddatblygu dull dibynadwy o fesur pa fathau o bobl sy'n barod i ystyried mynd i faes llywodraeth leol, a chyda golwg ar sut y gellir annog hyn.

Mae'r Mesur yn cyflwyno swydd newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac yn pennu swyddogaeth y swydd honno. Bydd y pwerau i wneud rheoliadau a geir yn adran 9(1)(i) ac yn adran 10 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu swyddogaethau at y rhestr honno ac i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymghorffori yn eu rheolau sefydlog ddarpariaethau sy'n ymwneud â rheoli staff a gaiff eu dynodi i weithio gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau a geir yn adrannau 24 - 30 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynllun absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol, a diben y cynllun hwnnw yw mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu cynghorwyr y mae ganddynt ddyletswyddau teuluol, neu y gall y bydd ganddynt ddyletswyddau o'r fath.

**Ffurf y Pŵer Dirprwyedig**

Bernir mai Rheoliadau sy’n briodol er mwyn llunio’r cwestiynau y cyfeirir atynt yn adran 1 ac er mwyn ymdrin â sut y mae’r data y cyfeirir ato yn adran 2 i’w gyflwyno. Bydd cyflwyno Rheoliadau yn fodd i sicrhau cysondeb ar draws yr awdurdodau lleol wrth gasglu’r wybodaeth hon. Mae rhestr ar wyneb y Mesur o’r math o wybodaeth y ceir ei chasglu am ymgeiswyr aflwyddiannus ac am gynghorwyr gan ddefnyddio’r cwestiynau rhagnodedig, ond nid yw’r rhestr honno’n un gynhwysfawr. Dichon y bydd gofyn ailedrych ar y cwestiynau rhagnodedig ac ar yr agweddau gweinyddol ymhen amser ac ar ôl ystyried effeithiolrwydd y darpariaethau, a’u hyd a’u lled.

Bernir bod rheoliadau’n briodol ar gyfer adran 9 (1) (i) ac adran 10. Bydd y rheoliadau’n ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau rhagnodedig y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori darpariaeth yn eu rheolau sefydlog sy’n dilyn ymlaen o’r gwasanaeth newydd hwn. Bydd y rheoliadau hyn yn ymhelaethu ar fanylion y gwasanaeth newydd hwn, a gallant newid o bryd i’w gilydd.

Bernir bod rheoliadau’n briodol ar gyfer adrannau 24 - 30, oherwydd y byddant yn darparu’r manylion ar gyfer gweinyddu’r cynllun ac ar gyfer yr hawl i absenoldeb teuluol, ac yn caniatáu ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y cynllun a’r hawl yn parhau i fod yn gydnaws â’r hawliau sy’n bod ar y pryd o dan y ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â chyflogaeth.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adrannau 1, 2 a 10. Bernir mai dyna sy’n briodol oherwydd y gall y bydd angen diweddaru manylion technegol a gweinyddol y rheoliadau arfaethedig ar sawl achlysur yn y dyfodol.

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan 9 (1) (i). Bernir mai dyna sy’n briodol oherwydd y bydd modd ychwanegu at swyddogaethau’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a bennir yn y Mesur ei hun, ac oherwydd y dylid craffu ar unrhyw swyddogaethau ychwanegol i’r un graddau ag y gwneir ar y Mesur ei hun.

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan 24 -30. Bernir mai dyna sy’n briodol oherwydd y bydd y rheoliadau’n cyflwyno cynllun absenoldeb newydd ar gyfer aelodau awdurdodau lleol. Dylai aelodau’r Cynulliad gael cyfle i gymeradwyo’r cynllun ac i drafod y materion sy’n codi.

**Rhannau 3, 4 a 5 – Llywodraethu**

Mae adran 34 yn rhoi effaith i Atodlen 1, y mae paragraff 13(2) yn Rhan 3 ohoni yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a'u bod yn dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth sydd ar ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 55 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru eithrio unrhyw swyddogaethau neu i gyfyngu ar y graddau y caiff aelod o'r cyngor nad yw'n aelod gweithrediaeth arfer swyddogaeth.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

Mae adran 34 yn rhoi effaith i Atodlen 1, sy'n ategu adran 34, ac yn darparu nad yw trefniadau amgen yn ddewis bellach ar gyfer awdurdodau lleol. Nid oes unrhyw reswm ar hyn o bryd dros gredu na fydd awdurdod yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth ond mae'n ddoeth cynnwys pŵer diofyn. Os caiff y pŵer ei ddefnyddio, bydd angen darpariaeth fanwl ac felly mae'n fwy priodol gwneud y ddarpariaeth angenrheidiol drwy orchymyn yn hytrach nag ar wyneb y Mesur.

Mae adran 55 yn darparu y caiff awdurdod wneud trefniadau i aelodau unigol arfer swyddogaethau'r weithrediaeth neu swyddogaethau eraill yr awdurdod mewn perthynas â'r adran etholiadol y maent wedi eu hethol drosti neu mewn perthynas â'u haelodaeth o gorff ac eithrio'r awdurdod lleol. Bydd hyn yn golygu y bydd modd gweithio mewn partneriaeth oherwydd y bydd aelodau nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth ac sy'n cynrychioli awdurdodau lleol ar gyrff allanol yn gallu gwneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod, a hynny oherwydd y bydd ganddynt bŵer dirprwyedig i arfer swyddogaethau.

Diben adran 56 yw sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am benderfyniadau neu gamau a gymerir gan gynghorwyr o dan adran 55 a bod y cyfryw gofnodion yn cael eu hadneuo gyda'r awdurdod lleol a'u bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

**Ffurf y pwerau dirprwyedig**

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn Atodlen 1, y rhoddir effaith iddo drwy adran 34. Bwriedir iddo fod yn bŵer diofyn ar gyfer Gweinidogion Cymru er mwyn sicrhau y cydymffurfir â bwriad y Mesur, sef bod y model "trefniadau amgen" ar gyfer awdurdodau lleol yn peidio â bod yn ddewis, drwy ei gwneud yn ofynnol drwy orchymyn i awdurdod lleol roi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth.

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 55. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion trefniadau a alluogir gan y Mesur.

Pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 56. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion trefniadau a alluogir gan y Mesur a chan fod hynny'n gyson â phwerau eraill i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â materion tebyg.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 34. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd natur weithdrefnol y pŵer. Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 55. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd natur weithdrefnol y pŵer ac o ystyried mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer y pŵer cyfatebol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau nad ydynt i'w cyflawni gan y weithrediaeth (adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000).

Mae adran 56 o'r mesur yn diwygio adran 100EA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (archwilio cofnodion sy'n ymwneud â swyddogaethau sy'n arferadwy gan aelodau) er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwneud cofnodion ysgrifenedig gan aelodau unigol o awdurdodau lleol yng Nghymru wrth arfer swyddogaethau yn rhinwedd trefniadau o dan adran 55. Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer hwn, a bernir mai dyna sy'n briodol gan fod hynny'n gyson â'r pŵer sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol eisoes yn adran 100EA, sydd hefyd yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol. At hynny, mae'n gyson â phŵer cyfatebol sy'n ymwneud â chofnodion ysgrifenedig aelodau unigol o weithrediaeth (adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000), sydd hefyd yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Rhan 6 Trosolwg a Chraffu**

Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â phwyllgorau Trosolwg a Chraffu mewn awdurdodau lleol.

Mae adran 57 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru bennu sut y caiff dau awdurdod lleol neu ragor benodi cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, ac i nodi'r trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau'r pwyllgor.

Mae adran 60 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ddynodi person at ddibenion adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae adran 62 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru eithrio materion y ceir eu cyfeirio at bwyllgorau trosolwg a chraffu.

Mae adran 74 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru bennu sut y mae awdurdodau lleol i benodi cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu.

Mae adran 80 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth y ceir ei rhagnodi mewn rheoliadau ynghylch gweithgareddau arfaethedig pwyllgorau trosolwg a chraffu yn y dyfodol.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

*Cyd-bwyllgorau Craffu*
Mae adran 57 yn bŵer galluogi ar gyfer awdurdodau lleol a bydd y pŵer dirprwyedig sydd ynddi yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion gweithredol cyd-bwyllgor. Byddent am ymgynghori â'r awdurdodau lleol cyn defnyddio'r pŵer hwn. Ni fydd pob un o'r awdurdodau lleol yn dewis cael cyd-bwyllgor ac ni fydd angen pwyllgor o'r fath ar bob un ohonynt. Os byddant yn dewis cael cyd-bwyllgor neu os bydd angen pwyllgor o'r fath arnynt, byddant yn gallu craffu ar y modd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflenwi mewn mwy nag un ardal sirol.

*Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000*
Mae angen diwygio'r system drosolwg a chraffu a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") er mwyn adlewyrchu bwriad y Mesur, sef caniatáu ar gyfer craffu ar yr holl wasanaethau cyhoeddus mewn ardal. Mae adran 60 yn mewnosod adran newydd (adran 21G) i Ddeddf 2000. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi person at ddibenion adran 21 o'r Deddf Llywodraeth Leol mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal sirol. Effaith hyn fydd rhoi rhwymedigaeth ar y personau neu'r cyrff dynodedig hynny i ymateb i geisiadau i fynd i gyfarfodydd pwyllgorau craffu neu i roi gwybodaeth iddynt.

Mae adran 62 yn diwygio adran 21A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n rhoi pŵer dirpwyedig i Weinidogion Cymru bennu materion y ceir eu heithrio rhag cael eu hystyried gan bwyllgorau trosolwg a chraffu.

*Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu*
Nid yw'r broses ar gyfer penodi cadeiryddion pwyllgorau craffu yn cael ei nodi yn Neddf 2000 nac mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall, ac mae nifer o brosesau gwahanol yn bod, gan gynnwys dyrannu cadeiryddiaeth pob un o'r pwyllgorau craffu i aelodau o'r un grŵp gwleidyddol. Bwriad y Mesur yw gwella'r modd y dyrennir cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried cydbwysedd gwleidyddol wrth ddyrannu. Mae adran 74 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i sicrhau proses benodi unffurf.

*Blaen-gynlluniau*
Diben y pwerau dirprwyedig o dan adran 80 yw gwireddu'r bwriad polisi o'i gwneud yn ofynnol i bwyllgorau craffu gyhoeddi blaen-gynlluniau, a fydd yn golygu y bydd y cyhoedd a sectorau eraill yn cael rhagor o wybodaeth, ac yn

gallu cynllunio eu cyfraniadau eu hunain yn well a monitro’r broses graffu yn well.

### Ffurf y Pŵer Dirprwyedig

Yn achos adran 57, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai rheoliadau sy’n briodol oherwydd y byddant yn darparu ar gyfer yr holl fanylion gweithredol a gweinyddol sy’n gysylltiedig â chyd-bwyllgorau. Mae gofyn i ddau neu ragor o awdurdodau lleol weithredu er mwyn sefydlu cyd-bwyllgor ac mae hyn yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur.

Mae adran 60 yn darparu ar gyfer pŵer i wneud gorchymyn mewn adran 21G (1) newydd o Ddeddf 2000. Bernir mai pŵer gwneud gorchymyn sy’n briodol gan fod y darpariaethau’n ymwneud â dynodi personau neu gategorïau o bersonau h.y. rhestr, a gorchymyn, yw’r ffordd briodol o wneud hyn.

Mae pŵer yn adran 62 i wneud gorchymyn gan nad oes modd nodi ymlaen llaw pa faterion y gallai fod yn briodol eu heithrio. Mae pŵer i wneud gorchymyn yn rhoi’r hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau wrth iddynt godi.

Mae pwerau yn adran 74 i wneud rheoliadau. Bernir mai rheoliadau sy’n briodol gan fod y darpariaethau’n ymwneud â manylion gweinyddol y cynllun penodi sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur, y gall y bydd angen eu hadolygu o bryd i’w gilydd.

Mae pwerau yn adran 80 i wneud rheoliadau. Bernir mai rheoliadau sy’n briodol gan fod y darpariaethau’n ymwneud â’r manylion gweinyddol ar gyfer cyhoeddi blaen-gynlluniau sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur, y gall y bydd angen eu hadolygu o bryd i’w gilydd.

### Ffurf y Weithdrefn Cynulliad

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer sydd yn adran 57 i wneud rheoliadau. Bernir mai dyna sy’n briodol gan fod y darpariaethau’n ymwneud â manylion gweinyddol y cynllun sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur.

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 60. Bernir mai dyna sy’n briodol er mwyn caniatáu i aelodau’r Cynulliad Cenedlaethol drafod a chymeradwyo pa bersonau a pha gyrff y dylid craffu arnynt mewn ardal llywodraeth leol.

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 62. Bernir mai dyna sy’n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â’r manylion gweinyddol y mae eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau sydd yn adran 74. Bernir mai dyna sy’n briodol gan

fod y ddarpariaeth yn ymwneud â chynllun penodi y mae ei angen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

Caiff y weithdrefn penderfyniad negyddol ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau sydd yn adran 80. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r manylion gweinyddol y mae eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

**Rhan 7- Cymunedau a Chynghorau Cymuned**

Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â chyfarfodydd cymunedol, pleidleisio cymunedol a chynghorau cymuned.

Mae adran 97 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru, i bob pwrpas, ddatgymhwyso'r gofynion hysbysu sydd yn yr adran yn achos pleidleisio cymunedol lle y bo'r cwestiwn yn gwestiwn o fath a bennir ganddynt mewn rheoliadau.

Mae adran 116 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn er mwyn diwygio amryfal drothwyon mewn cysylltiad â bodolaeth cyngor cymuned neu â grwpio cymuned ynghyd â chymunedau eraill.

Mae adran 119(5)(c) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i ychwanegu at yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad cyhoeddus sy'n rhoi manylion am fwriad cyngor cymuned i gyfethol.

Mae adran 122 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i ychwanegu at yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad cyhoeddus sy'n rhoi manylion am fwriad cyngor cymuned i benodi cynrychiolydd ieuenctid.

Mae adran 124 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i ddarparu bod cynrychiolydd ieuenctid i'w drin fel aelod o'r cyngor a benododd y cynrychiolydd, at y dibenion a bennir yn y rheoliadau.

Mae adran 130 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn er mwyn diwygio, diddymu, dirymu neu ddatgymhwyso unrhyw ddeddfiad sydd, yn eu barn hwy, yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer llesiant. Caiff y pŵer hwn ei arfer mewn cysylltiad â phob cyngor cymuned neu â chynghorau cymuned neilltuol, neu mewn cysylltiad â disgrifiadau neilltuol o gynghorau cymuned, ac am gyfnod neilltuol.

Mae adran 133 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer i wneud gorchymyn yn nodi cytundeb siarter enghreifftiol rhwng prif gyngor a chyngor cymuned.

Mae adran 137 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i wneud cynllun ar gyfer achredu cyngor cymuned.

Mae adran 143 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i wneud addasiadau i'r modd y gweithredir unrhyw ddeddfiad mewn cysylltiad â chynghorau cymuned neilltuol sy'n deillio o'r ffaith bod y cyfryw gynghorau wedi'u hachredu, neu fel arall.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

Mae adran 97 yn galluogi Gweinidogion Cymru i eithrio cwestiynau penodol o'r gofyniad sydd ar y swyddog canlyniadau i hysbysu'r prif gyngor perthnasol am y bleidlais ac am ganlyniadau'r bleidlais.

Mae adran 116 yn mewnosod adran newydd i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r amryfal drothwyon mewn cysylltiad â bodolaeth cyngor cymuned neu â grwpio cymuned ynghyd â chymunedau eraill.

Mae adrannau 119(5)(c) a 122 yn ymwneud â gwneud y broses gyfethol a'r broses penodi cynrychiolwyr ieuenctid yn fwy effeithiol. Byddant yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gwybodaeth bellach y byddant am iddi gael ei chynnwys yn yr hysbysiad cyhoeddus gorfodol.

Mae adran 124 yn galluogi Gweinidogion Cymru, yng ngoleuni profiad cynghorau cymuned wrth benodi cynrychiolwyr ieuenctid, i ddarparu bod cynrychiolwyr ieuenctid i'w trin fel aelodau o'r cynghorau at ddibenion penodol a bennir yn y rheoliadau.

Mae adran 130 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael gwared ar unrhyw rwystr cyfreithiol a fyddai'n atal cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer i hybu llesiant.

Mae adran 133 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynllun siarter enghreifftiol fel modd o hybu perthynas dda rhwng prif gyngor a chyngor cymuned.

Mae adran 137 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cynllun achredu ansawdd ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru. Er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol ym maes llywodraeth leol ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol y gall y bydd yn rhaid i gynghorau cymuned ymateb iddi, mae adran 143 yn caniatáu ar gyfer addasiadau gan Weinidogion Cymru i unrhyw Fesurau neu Ddeddfau yn y dyfodol. Mae'n caniatáu ar gyfer rhoi o'r neilltu, neu ei gwneud yn haws cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth ar gynghorau cymuned yn y dyfodol y bernir nad oes ei hangen yn rhinwedd y ffaith bod y cyngor cymuned wedi'i achredu.

**Ffurf y pŵer dirprwyedig**

Yn achos adran 97, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phleidleisiau, a dichon y bydd gofyn eu diwygio hwy yn y dyfodol.

Yn achos adran 116, pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig. Ni cheir gwneud unrhyw orchymyn cyn ymgynghori â'r prif gynghorau neu â'r corff sy'n eu cynrychioli a chyda'r cynghorau cymuned neu â'r corff sy'n eu cynrychioli hwy. Bernir bod pŵer i wneud gorchymyn yn briodol gan mai dyma'r ffordd i ddiwygio'r trothwyon sydd i'w gweld ar wyneb Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygir gan y Mesur.

Yn achos adrannau 119(5)(c), 122, a 124, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Dyna sy'n briodol oherwydd y bydd modd newid y rheoliadau er mwyn ymateb i anghenion ac effeithiau ymarferol y penodiadau.

Yn achos adran 130, pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyna sy'n briodol ac mai dyna'r dull mwyaf addas i'w ddefnyddio gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio, i ddirymu neu i ddatgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

Yn achos adran 133, pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig. Dyna sy'n briodol gan fod yr adran yn ymwneud â nodi darpariaethau cytundeb siarter enghreifftiol. Ni cheir gwneud gorchymyn o dan yr adran hon heb ymgynghori â'r cyrff sy'n cynrychioli prif gynghorau a chynghorau cymuned, ac â'r cyfryw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

Yn achos adrannau 137 a 143, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion cynllun achredu a all fod yn agored i newid.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Caiff y weithdrefn penderfyniad negyddol ei defnyddio ar gyfer adrannau 97, 119(5)(c), 122, 124, 133, 137 a 143. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion gweinyddol a thechnegol y gall fod angen eu diweddaru yn y dyfodol.

Caiff y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ei defnyddio ar gyfer adran 116. Bernir mai dyna sy'n briodol gan y bydd yn caniatáu i'r Cynulliad drafod a chymeradwyo'r newidiadau.

Caiff y weithdrefn uwchgadarnhaol ei defnyddio ar gyfer adran 130. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd mai dim ond drwy gyfrwng y weithdrefn gyfatebol yn Nau Dŷ'r Senedd y ceir arfer pŵer cyfatebol yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Rhan 8 – Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau Cynghorwyr)**

Mae’r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac â’r modd y gweithredir y system ar gyfer penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru.

Mae adran 161 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ddiwygio’r darpariaethau sy’n ymwneud ag aelodaeth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddaieth Ariannol, a’r darpariaethau sy’n ymwneud â swyddogaethau’r Panel.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i’r bwriad o ran polisi**

Diwygio’r system lwfansau i aelodau sydd wrth wraidd y bwriad i estyn cylch gwaith y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ar hyn o bryd, Rheoliadau’r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 sy’n rheoli swyddogaethau’r Panel. Effaith hyn yw bod y cyfrifoldeb dros benderfynu ar y mathau o lwfansau, ac ar swm y lwfansau, yn cael ei rannu rhwng y Panel a Gweinidogion Cymru. Mae hefyd yn cyfyngu ar yr hyn y gall y Panel ei wneud. Mae Llywodraeth y Cynulliad am sefydlu system cydnabyddiaeth ariannol sy’n rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i bob cynghorydd am y cyfrifoldeb sydd arno wrth wasanaethu ei gymuned ac wrth gyfrannu at y dyletswyddau sy’n gysylltiedig â llywodraethu ei gyngor, ac mae o’r farn mai’r Panel yw’r corff priodol i ymgymryd â’r cyfrifoldeb hwnnw. Mae’r Mesur yn nodi, yn Atodlen 2, y telerau y penodir y Panel oddi tanynt. Disgrifir swyddogaethau’r Panel yn adrannau 145 a 146.

Mae adran 161 yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau i ddarpariaethau sy’n ymwneud â phenodi’r Panel, â’i ddeiliadaeth a’i weithdrefnau, yn ogystal â swyddogaethau’r Panel o dan Ran 8 o’r Mesur. Gall yr angen i ddiwygio godi o ganlyniad i ddatblygiadau ym maes llywodraeth leol yn y dyfodol ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a all effeithio ar y modd y penodir y Panel, ar ei ddeiliadaeth a’i weithdrefnau, yn ogystal ag ar ei swyddogaethau.

**Ffurf y Pŵer Dirprwyedig**

Yn achos adran 161, pŵer i wneud gorchymyn yw’r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyma’r dull mwyaf priodol gan fod y pŵer yn ymwneud â materion gweithredol sy’n gysylltiedig â sut y penodir y Panel, neu â’i swyddogaethau.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 161. Bernir mai dyna sy’n briodol gan y byddai’n rhoi cyfle i’r Cynulliad drafod a chymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i’r modd y penodir y Panel, neu i’w swyddogaethau.

**Rhan 9 - Cyffredinol**

Mae adran 170 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol ac arbed mewn cysylltiad â'r Mesur hwn.

Mae adran 171 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu'r dyddiad y bydd unrhyw un neu rai o'r darpariaethau yn y Mesur yn dod i rym.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

Er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol ym maes llywodraeth leol ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol y gall y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ymateb iddi, mae adran 170 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol, ddarfodol ac arbed i'r rhannau priodol o'r Mesur. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer diweddaru manylion technegol yn y darpariaethau yn ôl yr angen yn sgil pasio Mesurau neu ddeddfau eraill. Mae angen y pŵer hwn er mwyn darparu ar gyfer rhoi effaith lawn i'r cyfryw orchymyn mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Mesur, a hynny oherwydd ei bod y debygol o fod yn fanwl iawn.

**Ffurf y pŵer dirprwyedig**

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 170. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion technegol diwygiadau i ddeddfwriaeth.

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 171.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 170 onid oes ynddo addasiadau i ddeddfiad. Mewn achos o'r fath, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a gaiff ei defnyddio. Mae hyn yn briodol oherwydd y byddai modd diwygio deddfiadau a chan y byddai'n rhoi cyfle i aelodau'r Cynulliad drafod a chymeradwyo'r diwygiad.

Nid oes unrhyw weithdrefn Cynulliad ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 171. Dyna yw'r arferiad yn achos darpariaethau cychwyn.